# Swydd Ddisgrifiad

**Teitl y Swydd:** Cydlynnydd Gwirfoddoli Ffrindiau Gigiau Gogledd Cymru

**Gradd:** Gradd C ADC

**Oriau:** 25 awr yr wythnos

**Atebol i:** Rheolwraig Arloesi

**Pwrpas:** Recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr ar gyfer Ffrindiau Gigiau Cymru yn siroedd Gwynedd, Wrecsam a Sir Ddinbych a datblygu profiad gwirfoddoli.

**Cyfrifoldebau**

**1. Cefnogi gwirfoddolwyr**

1.1 Sicrhau bod yr holl wirfoddolwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol eu taith drwy:

- Eu cefnogi gyda'u 'Anwytho wedi'i Ganoli ar y Person a Chynllun Hyfforddi'.
- Darparu sesiynau cefnogi iddyn nhw mewn grwpiau ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Eu cefnogi yn unigol fel eu bod yn teimlo wedi'u gyrmuso a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Cynorthwyo gyda'u hanghenion datblygu a hyfforddi a chyflogaeth yn y dyfodol yn cynnwys gwirfoddolwyr sydd ag anabledd dysgu
- Eu hannog i gymryd rhan gweithredol yn y prosiect.

1.2 Adolygu a datblygu ein deunyddiau a gwybodaeth hyfforddi i wirfoddolwyr

1.3 Gwella systemau i gofnodi taith gwirfoddolwyr, cadw a defnydd data yn ein cofnodion electronig .

1.4 Gwerthuso profiad gwirfoddolwyr drwy gyfweliadau, arolygon ac arolygu .

1.5 Datblygu systemau i werthuso profiadau ansoddol a meintiol gwirfoddolwyr gyda'r Ffrind Gigiau.

1.6 Sefydlu a gweithio tuag at Safonau 'Buddsoddwyr mewn Pobl'

1.7 Creu ffyrdd o ddangos gwerthfawrogiad i'n gwirfoddolwyr.

**2. Arall**

2.1 Recriwtio gwirfoddolwyr drwy amrediad o sianeli a digwyddiadau gyda'r ardaloedd a gyllidir.

2.2 Adeiladu perthnasoedd gyda gwasanaethau gwirfoddoli, awdurdodau lleol, trydydd sector a lleoliadau celfyddydau/cerddoriaeth

2.3 Gweithio'n agos gyda'r tîm Ffrindiau Gigiau Cymru ehangach yn ne a gogledd Cymru.

2.4 Cymryd rhan yng ngrŵp llywio a rhwydweithiau'r prosiect i ddatblygu a siapio Ffrindiau Gigiau Cymru.

2.5 Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau'r prosiect drwy fynychu cyfarfpdydd tîm, darllen adroddiadau prosiect a chofnodion grŵp.

2.6 Cynnal a dadansoddi gwybodaeth berthnasol i'w rannu ac ar gyfer pwrpasau adrodd y prosiect.

2.7 Cyflawni amrediad o ddyletswyddau o fewn cwmpas eich rôl a sicrhau darpariaeth cynllun strategol y corff.

.

| | |
|---|---|
| Gweithredol o | Medi 2022 |
| Cymeradwywyd gan | Zoe Richards, Prif Weithredwraig a Karen Warner, Rheolwraig Arloesi |
| Derbyniwyd gan | |